

THOMAS, EVAN (bu farw 1781), Cwmhwylfod, Sarnau, gerllaw'r Bala, copiydd a pherchennog llawysgrifau

Enw: Evan Thomas
Dyddiad marw: 1781
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: copiydd a pherchennog llawysgrifau
Cartref: Cwmhwylfod
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: William Llewelyn Davies

Golygodd **E. Stanton Roberts** un o'i lawysgrifau (**NLW MS 686B**) a'i gyhoeddi o dan y teitl *Llysieulyfr Meddyginiaethol a briodolir i William Salesbury* (Liverpool, 1916). Bu **Cwrtmawr MS 1D** (un o lawysgrifau **Ellis Gruffydd**, y sawdiwr o Galais, ac yn cynnwys adrannau ar feddyginiaeth a llyisiau) a **NLW MS 642B** yn eiddo Evan Thomas, ac erbyn hyn gellir dywedyd hefyd iddo fod yn berchen **NLW MS 4581B** sydd yn gopi cynharach o'r *'Llysieulyfr Meddyginiaethol,'* sef copi a wnaeth **Roger Morris**, Coed y Talwrn, Llanfair Dyffryn Clwyd, a oedd yn gyfaill i **William Salesbury**. Yn ôl cofrestr plwyf Llanfor, Sir Feirionnydd, claddwyd 'Evan Thomas of Penmaen Township' ar 12 Ionawr 1781.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Megan Ellis, 'Evan Thomas,' yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i, 111

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733043

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, W. L., (1953). THOMAS, EVAN (bu farw 1781), Cwmhwylfod, Sarnau, gerllaw'r Bala, copiydd a pherchennog llawysgrifau. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-EVA-1781>

Copy

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government